


# GWASANAETH WARDEN CYMUNEDOL

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

## Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a hybu cymunedau diogel a chynaliadwy.

## Mae'n wardeniaid cymunedol yn gwasanaethu pob ardal o Wynedd. Eu nod yw sicrhau y gallwch fwynhau eich cartref a bod yn falch o'ch ardal.

Mae ein gwasanaeth wardeniaid cymunedol yn cynnwys:

- Presenoldeb gweledol ar ein stadau
- Darparu cymorth a chyngor i drigolion
- Helpu i gynnal tenantiaethau llwyddiannus o fewn y 12 mis cyntaf
- Ymateb i unrhyw broblemau rheolaeth ar eich stad
- Rhedeg prosiectau lleol er lles y gymuned a'r amgylchedd
- Cydweithio â mudiadau a chymdeithasau eraill yn eich ardal
- Monitro a chadw golwg ar dir a mannau cymunedol
- Adnabod ac atal ymddygiad gwrth - gymdeithasol
- Cynnig cefnogaeth i dystion a dioddefwyr
- Rhoi cyfle i bobl ifanc i gymryd rhan yn ein Cynllun Wardeniaid Ifanc blynyddol
- Annog tenantiaid a phreswylwyr i gymryd rhan ar ein fforymau

I gysylltu â'ch warden cymunedol lleol, ffoniwch ein Tîm Gwasanaethau Bro ar 0300 123 8084, neu ebostiwch cymdogol@ccgwynedd.org.uk

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel Braille, llythrennau bras, neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.